Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Polisi a gweithdrefnau Estyn

ar gyfer

diogelu

2009

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Cynnwys		Tudalen

1	**Cyflwyniad**	**1**
2	**Egwyddorion allweddol**	**1**
3	**Datganiad polisi**	**3**
4	**Gweithdrefnau**	**4**
5	**Rolau a chyfrifoldebau**	**6**
6	**Diffiniad o blentyn**	**10**
7	**Diffiniad o oedolyn agored i niwed**	**10**
8	**Diffiniadau o risg**	**11**
	Atodiadau	
	1 Cofnod diogelu Estyn	15
	2 Cysylltiadau ffôn	16
	3 Darllen ymhellach	17

1 Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn a'r gweithdrefnau a'r arweiniad cysylltiol yn darparu cyngor cyson ar ymdrin â materion diogelu posibl.

Mae'r polisi hwn a'r gweithdrefnau a'r arweiniad cysylltiol yn berthnasol i'r:

- holl staff ac arolygwyr a gyflogir yn uniongyrchol gan Estyn;
- arolygwyr ychwanegol;
- aseswyr cymheiriaid; ac
- arolygwyr cofrestredig, arolygwyr tîm ac arolygwyr lleyg.

Dylai arolygwyr cofnodol neu arolygwyr cofrestredig sicrhau bod darparwyr addysg a hyfforddiant yn ymwybodol o'r ddogfen hon cyn pob arolygiad.

2 Egwyddorion allweddol

Ceir yr egwyddorion allweddol sy'n sail i'r polisi diogelu hwn a'r arweiniad ar gyfer plant ac oedolion agored i niwed yn Neddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Plant 2004. Fe'u hesbonnir yn y dogfennau 'Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004', Confensiwn y CU ar hawliau plant', a arwyddwyd gan y Deyrnas Unedig, a 'Mewn Dwylo Diogel: rhoi gweithdrefnau amddiffyn oedolion ar waith yng Nghymru'.

Rhestrir yr egwyddorion allweddol isod.

Plant:

Mae pob plentyn yn haeddu'r cyfle i gyrraedd ei botensial llawn. Dylai fod ganddynt y cyfle i:

- fod mor iach â phosibl yn gorfforol ac yn feddyliol;
- manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd addysgu o safon dda;
- byw mewn amgylchedd diogel a chael eu diogelu rhag niwed;
- profi lles emosiynol;
- teimlo bod rhai'n eu caru a'u gwerthfawrogi, a chael eu cynorthwyo gan rwydwaith o berthnasoedd dibynadwy a chariadus;
- dod yn alluog i edrych ar ôl eu hunain ac ymdopi â bywyd bob dydd;

- cael delwedd gadarnhaol o'u hunain a synnwyr cadarn o hunaniaeth, gan gynnwys hunaniaeth ddiwylliannol a hiliol; a

- datblygu medrau rhyngbersonol da a hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Dylai'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant;

- ystyried bod lles plant o'r pwys mwyaf;

- bod yn effro i arwyddion posibl o gam-drin ac esgeulustod;

- bod yn effro i'r peryglon y gallai camdrinwr unigol, neu gamdrinwr posibl, fygwth ar blant;

- bod yn ymwybodol o effaith camddefnyddio ac esgeulustod ar blant; a

- chyfrannu fel bo'r galw at bob cam o'r broses ddiogelu.

Oedolion agored i niwed

Rhaid diogelu pob grŵp cleientiaid o oedolion agored i niwed rhag cael eu cam-drin a dylid eu cynorthwyo wrth iddynt geisio triniaeth ac iawndal i gywiro camarfer os ydynt wedi cael eu cam-drin:

- dylid cymryd camau gweithredol yn erbyn y rheiny sy'n cam-drin yn fwriadol oedolion sy'n agored i niwed a chynorthwyo'r rheiny sydd wedi eu gorymestyn o ran eu cyfrifoldebau fel cynhalwyr;

- mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn cymryd y rhan arweiniol mewn cydlynu datblygu arweiniad polisi lleol ar gyfer diogelu oedolion agored i niwed sydd mewn perygl o gael eu cam-drin;

- bydd asiantaethau a sefydliadau yn cydweithio ar adnabod, archwilio, trin ac atal cam-drin oedolion agored i niwed;

- bydd polisïau lleol yn tynnu ar fframwaith polisïau eraill er mwyn sicrhau y bydd oedolion agored i niwed yn derbyn ymateb cyson pan godir pryderon, p'un ai ydynt yn cael eu hadrodd o dan drefn gwyno, drwy archwiliad neu weithgaredd cofrestru, o ganlyniad i gyhuddiadau neu o ganlyniad i ddatgeliad, ar ran oedolion agored i niwed neu eu cynhalwyr;

- cydlynir y camau yn erbyn y rheiny sy'n cyflawni troseddau er mwyn sicrhau bod prosesau cyfochrog yn cael eu plethu â'i gilydd gan gynnwys erlyniad, camau disgyblu a dileu, neu hysbysiad i ddileu oddi ar gofrestr broffesiynol a chyrff tebyg;

- rhennir gwybodaeth ar sail "angen cael gwybod" yn unig fel y gellir gwneud penderfyniadau effeithiol ac y gellir cymryd camau ataliol priodol; a

- bydd cyfle cyfartal ar gael i'r holl oedolion agored i niwed beth bynnag yw eu hil, rhyw, rhywioldeb, dosbarth, crefydd, diwylliant neu anabledd.

3 Datganiad polisi

Ym mhob agwedd ar waith Estyn, rhaid i anghenion a diddordebau plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed gael eu gosod uwchben anghenion a diddordebau pawb arall. Gan hynny, rhaid blaenoriaethu'r polisi a'r arweiniad hwn uwchben pob polisi ac arweiniad arall. Bydd Estyn yn chwarae eu rhan yn diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Drwy'r arweiniad hwn, a thrwy hyfforddiant priodol, byddwn yn codi ymwybyddiaeth ymhlith ein staff o gamdriniaeth ac esgeulustod posibl o fewn lleoliadau rydym yn eu harolygu ynghyd â lleoliadau eraill rydym yn ymweld â nhw.

Er mwyn gweithredu'r polisi hwn byddwn yn:

- sicrhau, drwy hyfforddiant a datblygiad, bod yr holl staff yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed a'u bod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd ganddynt bryderon;

- dilyn gweithdrefn ddiogelu y cytunwyd arni'n lleol ac yn sefydlu cysylltiadau â Byrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDP) a Phwyllgorau Ardal Diogelu Oedolion (PADO);

- sicrhau bod staff yn cymryd camau pendant i ymateb i honiadau, amheuon neu ddigwyddiadau o gam-drin;

- sicrhau bod darparwyr lleoliadau addysg a hyfforddiant yn cyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd sy'n diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed;

- sicrhau bod gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant weithdrefnau diogelu yn eu lle a bod y rhain wedi eu cysylltu â gweithdrefnau aml-asiantaeth y cytunwyd arnynt yn lleol, neu wedi eu hadeiladu i mewn iddynt; ac yn

- cydweithredu ag asiantaethau eraill i ymateb i fentrau cenedlaethol a lleol a datblygu strategaethau a luniwyd i atal a/neu leihau'r perygl o gam-drin/gofal amhriodol rhag digwydd.

4 Gweithdrefnau

4.1 Arweiniad cyffredinol ar y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn achos o gamdriniaeth neu esgeulustod honedig neu a amheuir:

- mae'n ddyletswydd ar yr holl staff a'r arolygwyr i adrodd am unrhyw bryderon;
- dylai staff ac arolygwyr gyfeirio unrhyw bryderon at swyddog neu is-swyddog diogelu Estyn. Gwiriwch gyda nhw pa wybodaeth ddylid ei rhannu, a gyda phwy, a chofnodwch y manylion ar gofnod diogelu Estyn; a
- nid rôl staff ac arolygwyr Estyn yw ymchwilio neu geisio cael gafael ar dystiolaeth ynghylch pryderon diogelu, ac ni ddylent geisio gwneud hynny.

4.1.1 Mae'n bosibl bod staff neu arolygwyr Estyn yn gofidio ynghylch y cyfyngiadau cyfreithiol a moesol ar rannu gwybodaeth, yn enwedig gydag asiantaethau eraill. Fodd bynnag, mae'n hanfodol rhannu gwybodaeth at ddibenion diogelu. Mewn llawer o achosion dim ond pan roddir gwybodaeth a gafwyd o ystod o ffynonellau at ei gilydd y gwelir bod plentyn neu oedolyn agored i niwed mewn angen neu mewn perygl o niwed. Yn gyffredinol, nid yw'r gyfraith yn eich atal rhag rhannu gwybodaeth gydag ymarferwyr eraill os:

- yw'r rheiny sy'n debygol o gael eu heffeithio yn cytuno; neu
- os yw lles y cyhoedd mewn diogelu'r unigolyn yn gwrthbwyso'r angen i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol; neu
- bod angen datgeliad o dan orchymyn llys neu ymrwymiadau cyfreithiol eraill.

4.1.2 Os yw aelod o staff Estyn neu arolygydd yn derbyn llythyr sydd â goblygiadau posibl o ran diogelu, dylid ei gyfeirio i swyddog diogelu Estyn neu'r dirprwy a chofnodi'r manylion ar gofnod diogelu Estyn.

4.1.3 Os yw aelod o staff Estyn neu arolygydd yn derbyn galwad ffôn sydd â goblygiadau posibl o ran diogelu, dylid dilyn y gweithdrefnau arferol ar gyfer cymryd enw a manylion cyswllt y galwr. Dylai'r aelod staff sicrhau'r galwr y bydd dilyniant i'r alwad, gan gysylltu â swyddog diogelu Estyn neu'r dirprwy ar unwaith. Dylid cofnodi'r manylion ar gofnod diogelu Estyn.

4.2 Y weithdrefn i'w dilyn mewn achos honedig neu amheus o gam-drin neu esgeuluso plant mewn lleoliad addysg neu hyfforddiant:

- ym mhob achos **ac eithrio'r rheiny lle ceir honiad yn erbyn yr arolygydd arweiniol,** dylai'r arolygydd sy'n cynnal yr atgyfeiriad hysbysu'r arolygydd arwain;
- mae'r arolygydd arwain yn gyfrifol am:
  - gynnal atgyfeiriad diogelu; a
  - hysbysu'r darparwr bod yr atgyfeiriad yn cael ei wneud;

- bydd yr arolygydd arwainl yn hysbysu swyddog diogelu Estyn neu'r dirprwy am yr atgyfeiriad ac yn cofnodi'r manylion ar gofnod diogelu Estyn;

- mewn achos lle ceir honiad yn erbyn yr arolygydd arweiniol, yr arolygydd sydd â'r gofid sy'n gyfrifol am hysbysu swyddog diogelu Estyn neu'r dirprwy yn ddi-oed. Dylid cofnodi manylion ar gofnod diogelu Estyn;

- bydd swyddog diogelu Estyn neu'r dirprwy yn gyfrifol am:

  - wneud yr atgyfeiriad angenrheidiol;
  - hysbysu'r uwch reolwr priodol o fewn Estyn;

- yn achos un o arolygwyr Estyn yn gweithio fel rhan o dîm aml-asiantaeth, lle nad Estyn yw'r arolygwyr arwain, bydd arolygydd Estyn yn dilyn gweithdrefn diogelu'r arolygiaeth arwain oni bai y bydd hyn yn achosi oedi yn yr atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu a rhoi'r plentyn mewn perygl o niwed pellach. Yn ogystal, bydd yr arolygydd yn hysbysu swyddog diogelu Estyn neu'r dirprwy ac yn cofnodi'r manylion ar gofnod diogelu Estyn. Bydd swyddog diogelu Estyn neu'r dirprwy yn ysgrifennu at yr arolygiaeth arweiniol i sicrhau y cafwyd dilyniant i'r atgyfeiriad ac i ganfod p'un ai oes angen i Estyn gymryd camau ymhellach;

- yn achos arolygiad amlddisgyblaethol pan mai Estyn yw'r arolygiaeth arwain, bydd yr arolygydd arwain yn rhoi copi o bolisi a gweithdrefn diogelu Estyn i holl aelodau eraill y tîm fel rhan o'u briffio cychwynnol cyn iddynt ymuno â'r tîm. Disgwylir i arolygwyr o arolygiaethau eraill weithio o fewn y gweithdrefnau hyn;

- os gwneir **datgeliad** gan blentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed sy'n honni ffurf o gam-drin neu ofal amhriodol iddo neu iddi ei hun neu unrhyw oedolyn arall sy'n agored i niwed, rhaid dilyn y camau canlynol:

  - peidiwch ag addo cyfrinachedd ond esboniwch eich bod yn gorfod pasio'r wybodaeth hon ymlaen;

  - gwrandewch yn ofalus ac yn llawn cydymdeimlad;

  - ceisiwch help gan staff meddygol, y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu os oes perygl uniongyrchol;

  - ceisiwch gael eglurder o ran yr hyn a ddigwyddodd ond gofynnwch cyn lleied o gwestiynau â phosibl;

  - hysbyswch arolygydd arwain Estyn, y swyddog diogelu neu'r dirprwy ar unwaith; a

  - chofnodwch fanylion ar gofnod diogelu Estyn.

5 Rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion agored i niwed

5.1 Rôl a chyfrifoldeb Estyn mewn perthynas â diogelu.

Bydd Estyn yn enwebu uwch aelod o staff i weithredu fel y swyddog diogelu dynodedig a fydd yn:

- gweithio gydag asiantaethau eraill i ddarparu hyfforddiant effeithiol ar ddiogelu;
- hysbysu staff ac arolygwyr ynglŷn â pholisi Estyn a'u gwneud yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth adnabod a gweithredu ar ddangosyddion bod lles neu ddiogelwch plentyn neu oedolyn agored i niwed mewn perygl; posibl, ac wrth gyflawni gweithdrefnau diogelu;
- monitro cyflawni gweithdrefnau diogelu Estyn;
- monitro'r atgyfeiriadau oddi wrth staff ac arolygwyr Estyn er mwyn adnabod patrymau;
- monitro cysylltiad staff ac arolygwyr Estyn ag ymchwiliadau diogelu;
- cynghori a chefnogi aelodau o staff ac arolygwyr Estyn pan maent yn wynebu mater diogelu posibl;
- hysbysu'r Prif Arolygydd am unrhyw achosion diogelu a atgyfeirwyd at y gwasanaethau cymdeithasol, y Bwrdd Lleol Diogelu Plant neu'r Pwyllgor Ardal Diogelu Oedolion;
- cynnal cofnodion canlyniadau'r holl atgyfeiriadau gan staff ac arolygwyr Estyn a'u hymrwymiad mewn diogelu ymchwiliadau; ac

.

- enwi uwch aelod arall o'r staff i weithredu ar ran y swyddog diogelu fel ei ddirprwy ef/dirprwy hi yn ei absenoldeb ef/habsenoldeb hi.

5.2 Bydd aelodau o staff ac arolygwyr Estyn yn:

- ymateb yn gadarnhaol i bob achos, yn unol â gweithdrefnau Estyn o ran diogelu mewn lleoliadau addysg neu hyfforddi, sut bynnag y'u derbynnir;
- hysbysu swyddog diogelu Estyn neu'r dirprwy am unrhyw honiad, amheuaeth neu ddigwyddiad yn gysylltiedig â diogelu;
- cofnodi manylion ar gofnod diogelu Estyn;
- rhoi'r holl wybodaeth berthnasol i staff yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad;

- sicrhau bod darparwyr addysg a hyfforddiant yn cynnal eu dyletswyddau mewn modd sy'n diogelu ac yn amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed; a

- sicrhau bod gan Arolygwyr Cofnodol rif cyswllt ffôn swyddog diogelu Estyn a'r dirprwy.

5.3 Rôl a chyfrifoldebau swyddog diogelu dynodedig Estyn

Rôl y swyddog diogelu dynodedig yw:

- ymddwyn fel y pwynt cyswllt cyntaf o fewn Estyn ar faterion diogelu ar gyfer aelodau o staff ac arolygwyr Estyn;

- gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, Bwrdd Lleol Diogelu Plant, y Pwyllgor Ardal Diogelu Oedolion neu eu hasiantaethau penodedig mewn ardal leol;

- ymateb i geisiadau am fwy o wybodaeth oddi wrth yr Awdurdod Diogelu Annibynnol o dan delerau Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006

- cynghori'r Prif Arolygydd ynghylch unrhyw weithred ychwanegol angenrheidiol i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed neu gamau i rybuddio cyrff statudol priodol eraill (e.e. Llywodraeth Cynulliad Cymru);

- sicrhau yr adolygir polisïau a gweithdrefnau diogelu Estyn yn flynyddol o leiaf ac y cânt eu diweddaru yn y cyfamser os gwyddys bod angen;

- sicrhau y sefydlir cysylltiadau priodol rhwng y polisi diogelu a pholisïau eraill Estyn;

- hysbysu contractwr neu gyflogwr y person lle gwneir yr honiad diogelu yn erbyn asesydd cymheiriaid, arolygydd ychwanegol neu arolygydd annibynnol;

- cysylltu ag AD i gydlynu hyfforddiant ar gyfer staff Estyn a chyfrannu at gydlynu hyfforddiant ar y cyd gydag asiantaethau eraill;

- darparu diweddariadau rheolaidd ar faterion diogelu ar gyfer yr uwch dîm rheoli; a

- chysylltu â'r dirprwy swyddog diogelu data er mwyn sicrhau bod y cyfrifoldebau uchod yn cael eu bodloni'n llawn.

5.4 Rôl yr awdurdod lleol mewn perthynas â diogelu

Plant

Mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gynnal ymholiadau os oes ganddynt reswm i amau bod plentyn yn eu hardal yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef niwed arwyddocaol, er mwyn eu galluogi i benderfynu a ddylent gymryd camau i ddiogelu neu hyrwyddo lles plant. Cyfeirir at hwn fel ‘dyletswydd yr awdurdod lleol i ymchwilio'.

Mae arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru,'Diogelu Plant; Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004', yn darparu fframwaith ar gyfer ymholiadau tebyg a sail ar gyfer cydweithredu rhyngasiantaethol ac amlddisgyblaethol mewn prosesau atgyfeirio, asesu, cynllunio gofal, ymyrraeth ac adolygu.

Mae'r arweiniad:

- yn nodi bod y gwasanaethau cymdeithasol, oherwydd eu cyfrifoldebau, dyletswyddau a phwerau mewn perthynas â phlant agored i niwed, yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer plant sy'n destun pryderon yn ymwneud â lles plant;

- yn datgan y dylai pob awdurdod lleol, wrth ymarfer ei rôl gwasanaethau cymdeithasol, sicrhau bod Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn bodoli yn eu hardal, a'u bod yn cydlynu cynrychiolwyr o'r prif asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am gynorthwyo i amddiffyn plant rhag eu cam-drin;

- yn amlinellu rôl, cyfrifoldebau, cwmpas gweithredu ac atebolrwydd Bwrdd Lleol Diogelu Plant; ac

- yn enwi cyfrifoldebau penodol Bwrdd Lleol Diogelu Plant, sy'n cynnwys datblygu a chytuno ar bolisïau a gweithdrefnau lleol ar gyfer gwaith rhyngasiantaethol i ddiogelu plant o fewn y fframwaith cenedlaethol a ddarparwyd gan yr arweiniad.

Oedolion agored i niwed

Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddatblygu ac arwain gweithredu'r polisïau a gweithdrefnau rhyngasiantaethol i ddiogelu oedolion agored i niwed rhag cael eu cam-drin.

Mae dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru (2000) ‘Mewn Dwylo Diogel: Rhoi Gweithdrefnau Diogelu Oedolion ar waith yng Nghymru’ yn cynnig arweiniad ar weithredu gweithdrefnau tebyg.

Dylai'r nod anelu at:

- greu fframwaith ar gyfer gweithredu lle y bydd yr holl asiantaethau cyfrifol yn cydweithio er mwyn sicrhau polisi cydlynol i ddiogelu oedolion agored i niwed sydd mewn perygl o gael eu cam-drin;

- sicrhau ymateb cyson ac effeithiol i unrhyw amgylchiadau sy'n destun gofid neu gŵynion ffurfiol neu fynegi pryder;

- er mwyn atal cam-drin lle bo'n bosibl ond, os yw'r strategaeth ataliol yn methu, dylai asiantaethau sicrhau bod gweithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer mynd i'r afael â digwyddiadau o gam-drin; ac

- nodi'r cam nesaf wrth ymateb i'r amrywiaeth o amgylchiadau lle y gallai'r grŵp mewn perygl ddioddef niwed a chamddefnydd.

5.5 Rôl Byrddau Lleol Diogelu Plant

Mae'n ofynnol i'r Byrddau Lleol Diogelu Plant:

- ddiogelu plant a phobl ifanc rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso;

- targedu polisïau ac ymarfer at y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n dioddef, neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol;

- sicrhau bod polisïau ac arferion gwaith effeithiol yn eu lle er mwyn diogelu plant a phobl ifanc a'u bod yn cael eu cydlynu'n gywir; a

- hyrwyddo lles yr holl blant a phobl ifanc.

Amcan Bwrdd Lleol Diogelu Plant yw:

- cydlynu'r hyn sy'n cael ei wneud gan bob unigolyn neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc yn ardal yr awdurdod a'i sefydlodd; a

- sicrhau effeithiolrwydd yr hyn a wneir gan bob unigolyn neu gorff i'r dibenion hyn. (Adran 32(1); Deddf Plant 2004)

6 Diffiniad o blentyn

Mae dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) 'Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004' yn esbonio mai **plentyn** yw unrhyw un sydd heb gyrraedd eu pen-blwydd yn 18 oed. Felly, mae 'plant' yn golygu 'plant a phobl ifanc' gydol y ddogfen honno. Nid yw'r ffaith bod plentyn yn un ar bymtheg oed ac yn byw'n annibynnol neu mewn Addysg Bellach, neu'n aelod o'r lluoedd arfog, neu mewn ysbyty, neu mewn carchar neu sefydliad troseddwyr ifanc, yn newid eu statws na'u hawl i wasanaethau neu gael eu hamddiffyn o dan y Ddeddf Plant.

Dan Adran 175 Deddf Addysg 2002, mae'n ofynnol ar awdurdodau lleol (ALl) a chyrff llywodraethol i sicrhau eu bod yn diogelu ac yn hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Yn ogystal, mae'r gofyniad hwn yn ymestyn i gyrff llywodraethol sefydliadau, er enghraifft o fewn y sector addysg bellach.

7 Diffiniad o oedolyn agored i niwed

Yn nogfen Comisiwn y Gyfraith (1997) 'Who decides? Making decisions on behalf of mentally incapacitated adults', diffiniad eang oedolyn agored i niwed yw:

"Person 18 oed neu'n hŷn, ac sydd, neu sydd o bosibl, mewn angen am wasanaethau gofal cymdeithasol am resymau anabledd meddwl neu arall, oedran neu salwch ac sydd, neu sydd o bosibl, yn anabl i edrych ar ôl ei hun, neu'n methu amddiffyn ei hun rhag niwed arwyddocaol neu gamdriniaeth ddifrifol."

Mae'r prif gategorïau o bobl sy'n dod o fewn y diffiniad hwn yn cynnwys pobl sydd:

- ag anabledd dysgu;
- â nam corfforol neu synhwyrol;
- â salwch meddwl gan gynnwys dementia; ac
- sydd yn hen a bregus.

Mae grwpiau eraill o bobl y gellir o bosibl eu hystyried yn agored i niwed ac sy'n profi cam-drin posibl, yn cynnwys y rheiny sydd â phroblemau ag alcohol neu gyffuriau. Mae'n bosibl bod eu problemau'n symptom o'u camdriniaeth.

At bwrpas y diffiniad hwn, ystyrir bod 'gwasanaethau gofal cymdeithasol' yn cynnwys yr holl wasanaethau gofal mewn unrhyw leoliad neu gyd-destun.

8 Diffiniadau o risg

8.1 Plant

Cymerwyd y diffiniadau canlynol o bennod chwech' (Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004 LICC 2007).

Diffiniadau a chysyniadau allweddol

Esgeulustod

Esgeuluso cyson neu ddifrifol o blentyn, neu fethiant i ddiogelu plentyn rhag perygl o unrhyw fath, gan gynnwys oerfel, newynu neu fethiant difrifol i gynnal agweddau pwysig ar ofal, gan arwain at nam difrifol i iechyd neu ddatblygiad plentyn, gan gynnwys diffyg cynnydd nad yw'n organig.

Cam-drin corfforol

Taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, tagu, neu achosi niwed corfforol mewn ffordd arall i blentyn. Hefyd, gellir peri niwed corfforol pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio neu'n ysgogi salwch mewn plentyn o dan ei ofal.

Cam-drin Emosiynol

Dyma gam-drin plentyn yn emosiynol yn gyson i'r graddau lle achosir effeithiau niweidiol difrifol a chyson i ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol y plentyn.

Cam-drin Rhywiol

Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, pa un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys:

- cyffwrdd corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu fel arall;
- gweithgareddau heb gyffwrdd, fel cynnwys plant mewn edrych ar, neu gynhyrchu deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol; neu
- annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd anaddas yn rhywiol.

Niwed Sylweddol

Mae Adran 31(10) o'r Ddeddf yn datgan "*where the question of whether harm suffered by a child is significant turns on the child's health or development, his health or development shall be compared with that which could reasonably be expected of a similar child*".

8.2 Oedolion Agored i Niwed

Beth a olygir wrth esgeulustod neu gam-drin?

Mae cam-drin yn arwain at 'niwed arwyddocaol' i'r unigolyn sy'n cael ei gam-drin. Mae'r term 'niwed arwyddocaol' yn cyfeirio at:

- gamdriniaeth (gan gynnwys cam-drin yn rhywiol a ffurfiau o gamdriniaeth nad ydynt yn gorfforol);
- nam, neu ddirywiad posibl y gellir ei osgoi, mewn iechyd corfforol neu feddyliol; a
- nam ar ddatblygiad corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu ddatblygiadol.

Gall cam-drin gynnwys gweithred unigol neu weithredoedd niferus. Gall fod yn gorfforol, llafar, seicolegol, ariannol neu faterol. Gall y cam-drin fod yn weithred o esgeulustod neu fethiant i weithredu a gall y cam-drin fod yn ganlyniad anfwriadol o weithredoedd unigolyn. Gall ddigwydd ac mae'n bosibl iddo ddigwydd pan dynnir unigolyn agored i niwed mewn i weithrediad ariannol neu rywiol y maent heb gytuno iddo neu maent yn methu â chytuno iddo. Gall cam-drin ddigwydd mewn unrhyw berthynas ond, yn gyffredin, mae'n ymwneud â cham-drin pŵer.

Beth yw categorïau camdriniaeth a'u dangosyddion?

Cam-drin corfforol – yn cynnwys taro, slapio, gwthio, cicio, camddefnyddio meddyginiaeth, cyfyngiad gormodol neu gosbau amhriodol.

Cam-drin rhywiol – yn cynnwys trais ac ymosodiad rhywiol neu weithredoedd rhywiol lle nad yw'r oedolyn agored i niwed wedi cytuno iddynt neu yn methu â chytuno iddynt a/neu fe'u gorfodwyd i gytuno iddynt.

Cam-drin emosiynol neu seicolegol – yn cynnwys bygythiadau o niweidio neu adawiad, cywilyddio, cam-drin llafar neu hiliol, unigrwydd neu dynnu yn ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol.

Cam-drin ariannol neu faterol – yn cynnwys dwyn, twyll, gorfodaeth ynghylch ewyllys, eiddo neu etifeddiaeth, cam-drin neu gamddefnydd o fudd-daliadau.

Esgeulustod – yn cynnwys methiant ar ran unrhyw unigolyn sydd â chyfrifoldeb, awdurdod, gofal neu warchodaeth dros unigolyn agored i niwed i ddarparu'r lefel o ofal y byddai unigolyn rhesymol mewn sefyllfa debyg yn ei ddarparu.

Nid yw'n anghyffredin i oedolyn sy'n cael ei gam-drin ddioddef mwy nag un math o gam-drin.

Ffurfiau lluosog o gam-drin

Gwelir y rhain yn aml mewn perthnasoedd parhaus neu mewn lleoliad gwasnaeth difrïol, sy'n ei gwneud hi'n bwysig i edrych y tu hwnt i ddigwyddiadau unigol neu doriadau mewn safonau am ddeinamig sylfaenol a phatrymau o niweidio. Gall un

neu'r holl fathau o'r cam-drin gael eu cyflawni o ganlyniad i fwriad pendant a thargedu pobl agored i niwed, esgeulustod neu anwybodaeth. Lle mae'n anodd penderfynu'r adeg y dylid enwi ffurfiau mwy dichellgar a threiddiol o orthrwm fel cam-drin, dylid cymryd camau i herio gwasanaethau sy'n gwahaniaethu yn erbyn ac /neu'n anwybyddu anghenion grwpiau lleiafrifol.

Cam-drin sefydliadol

Yn aml mae cam-drin sy'n digwydd o fewn lleoliad sefydliadol yn cynnwys mwy nag un ffurf o niwed o ganlyniad i drefn lem ac ansensitif, ymyrraeth anhyddysg, ymyrrol neu ymledol neu amgylchedd sy'n caniatáu preifatrwydd annigonol neu gysur corfforol.

Pwerau ac ymchwiliadau deddfwriaethol

Mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cydweithio â'r heddlu wrth ymchwilio i honiadau o gam-drin oedolion. Mae rheolwyr timau gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu'n trafod yr holl achosion o gam-drin honedig sy'n cael eu hadrodd iddynt ac yn trefnu cyfarfod strategol lle y gwahoddir gweithwyr proffesiynol eraill i'r ymchwiliad. Yn y cyfarfod strategol penderfynir a oes angen ymchwilio i'r cam-drin honedig neu beidio, ac os felly pa asiantaeth neu asiantaethau ddylai ymgymryd â'r ymchwiliad. Ar ôl yr ymchwiliad, gelwir cyfarfod strategol neu cynhelir cynhadledd achos er mwyn cytuno ar y gweithredoedd sydd i'w cynnal a allai gynnwys:

- cynllun amddiffyn oedolion a gwasanaethau ychwanegol ar gyfer y dioddefwr;
- achos troseddol yn erbyn y cyflawnwr; a
- gweithdrefnau disgyblu ar gyfer staff.

Mae sawl achos o gam-drin yn gyfystyr â chyflawni trosedd. Yn hyn o beth, mae gan oedolion agored i niwed yr un hawl i amddiffyniad y gyfraith yn yr un modd ag unrhyw aelod arall o'r cyhoedd. Yn ychwanegol at hyn, crëwyd troseddau statudol penodol sy'n amddiffyn y rhai hynny a allai fod yn analluog mewn amrywiol ffyrdd. Enghreifftiau o weithredoedd a allai fod yn drosedd yw ymosodiad, boed yn gorfforol neun seicolegol (NB gallai ymosodiad corfforol gynnwys gweinyddu cyffuriau yn amhriodol), ymosodiad rhywiol a thrais, lladrad, twyll neu ryw ffurf arall o ymelwa ariannol a rhai ffurfiau ar wahaniaethu, boed ar sail hiliol neu ryw (e.e. cam-drin homoffobig).

Gallu a chaniatâd

O dan y ddeddfwriaeth gyfredol mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol a rhyddid i weithredu i sicrhau y diogelir oedolion agored i niwed ac y cynrychiolir eu buddiannau. Mae'r pwerau sydd ar gael yn fwy cyfyngedig na'r rheiny sydd ar gael i ymdrin â cham-drin plant. Mae awdurdodau lleol, ynghyd â chydweithwyr iechyd, yn ystyried ac yn asesu materion gallu a chaniatâd wrth benderfynu a yw gweithred yn gyfystyr â cham-drin neu beidio, ac i ba raddau y gall oedolyn agored i niwed wneud penderfyniadau, ac y dylid gofyn iddo wneud penderfyniadau ynglŷn â'r mater o

bryder. Mae dymuniadau'r oedolyn agored i niwed o'r pwys mwyaf yn y prosesau asesu a gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae yna ddyletswydd sylfaenol i bwyso a mesur hawl yr unigolyn i annibyniaeth a'r angen i'w diogelu.

Pwy yw'r camdrinwr?

Gall oedolion agored i niwed gael eu cam-drin gan ystod eang o bobl gan gynnwys rhai eraill sy'n oedolion agored i niwed/defnyddwyr gwasanaethau, perthnasau ac aelodau o'r teulu, staff proffesiynol, gweithwyr gofal cyflogedig, gwirfoddolwyr, cymdogion, ffrindiau, cymdeithion a phobl sy'n camddefnyddio pobl agored i niwed yn fwriadol.

Tra bod pob ffurf o gam-drin yn niweidio unigolyn ac o bosibl yn amlygu angen am ymyriad, dylid fod yn arbennig o bryderus pan mae rhywun mewn safle o awdurdod neu bŵer yn cam-drin.

Mae'n bosibl y bydd cam-drin gan ddieithryn yn gofyn am ymateb gwahanol i'r ymateb i gam-drin o fewn perthynas cyfredol neu leoliad gofal. Fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai ei fod yn briodol i ddefnyddio gweithdrefnau diogelu rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol er mwyn sicrhau bod yr oedolyn agored i niwed yn derbyn y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Gellir defnyddio'r gweithdrefnau hyn hefyd mewn achosion lle mae potensial posibl am niwed i oedolion eraill sy'n agored i niwed.

Amgylchiadau lle y gall cam-drin ddigwydd

Gall cam-drin ddigwydd pan mae oedolyn agored i niwed yn byw ar ei ben ei hun neu gyda pherthynas. Gall ddigwydd hefyd o fewn lleoliad nyrsio, preswyl neu ofal dydd, mewn ysbytai, lleoliadau gwarchodol neu mewn lle cyhoeddus. Gall ddigwydd yn ogystal mewn lleoedd y tybiwyd eu bod yn ddiogel o'r blaen. Mae angen i ni fod yn arbennig o ymwybodol o'r posibilrwydd iddo ddigwydd mewn lleoliadau addysg a hyfforddiant.

Llinell fain sydd rhwng ymddygiad annerbyniol neu amhriodol a cham-drin. Os oes amheuaeth ynglŷn ag yw ymddygiad yn achos o gam-drin neu beidio, dylech drafod hyn gyda rheolwr arwain penodol y gwasanaethau cymdeithasol lleol neu, os y tu allan i oriau gwaith, y swyddog dyletswydd brys.

Rhaid i chi hysbysu swyddog diogelu Estyn am eich pryderon, cyn gynted ag yr ydych wedi cysylltu â'r adran gwasanaethau cymdeithasol, a dilyn hyn i fyny drwy lenwi gofnod diogelu Estyn.

Atodiad 1

COFNOD DIOGELU ESTYN

CYFRINACHOL

Rhaid i staff fod yn ymwybodol o bolisi diogelu Estyn.

Pan dderbynnir gwybodaeth neu adroddiad ynghylch cam-drin honedig neu ofal amhriodol, mae'n hanfodol cymryd camau effeithiol cyn gynted â phosibl. Bwriad y cofnod hwn yw annog a chofnodi manylion hanfodol.

ADRAN 1 (i'w llenwi os derbyniwyd gwybodaeth dros y ffôn) – Mae hon yn wybodaeth bwysig a dylid ei chofnodi cyn gynted â phosibl, os yw'r galwr yn barod i'w darparu. Mae hyn er mwyn sicrhau y gellir ail-gysylltu â'r person os digwyddir colli'r alwad.

Rhif ffôn y galwr (gan gynnwys y cod STD) _____

Enw'r galwr _____ _____

ADRAN 2 – Yn gyffredinol, dyma'r lleiafswm o wybodaeth sydd ei hangen i gymryd yr atgyfeiriad ymlaen a'i harchwilio.
Enw llawn y plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed_____

Ymhle digwyddodd y digwyddiad honedig_____

Natur gyffredinol y gofid (e.e. cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol, bwlio ac ati.)

_____

ADRAN 3 – Gwybodaeth ychwanegol bwysig
Pryd ddigwyddodd y digwyddiad honedig_____

Enw a manylion unrhyw dystion_____

_____

Pwy arall sydd wedi cael gwybod am y digwyddiad honedig
_____

ADRAN 4 – Unrhyw wybodaeth arall a ddarparwyd gan y galwr (defnyddiwch dudalen ychwanegol os oes angen)
_____

_____

Enw'r person sy'n llenwi'r ffurflen hon _____

Dyddiad _____ Amser yr alwad (os yw'n berthnasol) _____

Rhoddwyd y ffurflen i _____ am _____ _____ (amser)

Atodiad 2

Rhifau cyswllt ffôn y byrddau lleol ar gyfer diogelu plant diogelu

SIR	FFÔN
Abertawe	01792 636000
Blaenau Gwent	01495 357727
Bro Morgannwg	01446 704701
Caerdydd	02920 774600
Caerffili	01443 864798
Casnewydd	01633 235296
Castell-nedd Port Talbot	01639 763333
Ceredigion	01545 574212
Conwy	01492 575164
Gwynedd	01286 679926
Merthyr Tudful	01685 724686
Pen-y-bont ar Ogwr	01656 642346
Powys	01597 827128
Rhondda Cynon Taf	01443 495135
Sir Benfro	01437 776566
Sir Ddinbych	01492 575164
Sir Gaerfyrddin	01267 228759
Sir Fynwy	01633 644644
Sir y Fflint	01352 704966
Torfaen	01633 648571
Wrecsam	01978 295408
Ynys Môn	01286 679926

Manylion cyswllt swyddog diogelu dynodedig Estyn

Swyddfa:

02920 446446 (nid 24 awr)

Tu allan i oriau swyddfa:

swyddog diogelu – 07795520451

dirprwy swyddog diogelu - 07785337840

Atodiad 3

Darllen ymhellach

1 Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004.

http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/dhss/4038226/1338309;jsessionid=PLM1Jj7fhmpKnQzZyP1L2Q1sHSs6Qpg3ctkClQfnWP1YVZb24Dmg!1710918917?lang=en

http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/dhss/4038226/1338321?lang=cy

2 Deddf **Diogelu Grwpiau Agored i Niwed** 2006, Gweithgareddau a Reolir, **Cymru**

http://new.wales.gov.uk/consultations/closed/childrenyoungpeople/safe/?lang=en

http://new.wales.gov.uk/consultations/closed/childrenyoungpeople/safe/?skip=1&lang=cy

3 Mewn Dwylo Diogel: Rhoi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion ar Waith yng Nghymru, Gorffennaf 2000

http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038212/403821/403821/4038211/4038213/safe_hands.pdf?lang=en

http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038212/403821/403821/40382111/4038213/dwylo_diogel.pdf?lang=cy

4 Diogelu Plant: Cydweithio er Mwyn Sicrhau Canlyniadau Cadarnhaol (2004).

http://wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/childrenyoungpeople/403821/safeguard-child-e.pdf;jsessionid=tYTrJj2GydLTrX972yqQhPG2jJNyTCvxy1Tt41ZRgrJ2X78PnyfJ!-1130397166?lang=en

http://wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/childrenyoungpeople/403821/safeguard-child-w.pdf?lang=cy

5 Cylchlythyr Y Swyddfa Gymreig 52/95: *Protecting children from abuse – the role of the education service* a diweddariad yr ychwanegiad at 52/95 – arweiniad NEOST

http://new.wales.gov.uk/dcells/publications/publications/circularsindex/1995/protectingchildrenfromabuse/nafwc5295.pdf?lang=en

(Dogfen Saesneg yn unig / English only document)

6 Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002.Cylchlythyr 005/2008, yn enwedig tudalennau101-104, am arweiniad perthnasol, cyhoeddiadau eraill a rheoliadau.

http://wales.gov.uk/dcells/publications/publications/circularsindex/2008/safeguardingchildren/safeguardingchildren-e.pdf?lang=en

http://wales.gov.uk/dcells/publications/publications/circularsindex/2008/safeguardingchildren/safeguardingchildren-w.pdf?lang=cy

7 Llywodraeth Cynulliad Cymru Cylchlythyr 34/02 Amddiffyn plant: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg.

http://wales.gov.uk/1546306/circulars/2002/english/NAFWC34-02-e.pdf?lang=en

http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/4038211/Circulars/child-protection-w.pdf?lang=cy

8 Diogelu Plant ag Arnynt Salwch Ffug neu Salwch Gwneud (2008)

http://new.wales.gov.uk/dhss/publications/children/guidance/safeguardingillness/illnesse.pdf?lang=en

http://new.wales.gov.uk/dhss/publications/children/guidance/safeguardingillness/illnesse.pdf?lang=cy

9 Llywodraeth Cynulliad Cymru Cylchlythyr 02/03 Y Swyddfa Cofnodion Troseddol: Ffeithiau sylfaenol i Wirfoddolwyr mewn Ysgolion

http://new.wales.gov.uk/dcells/publications/publications/circularsindex/03/criminalrecordsbureau/nafwc0203-e.pdf?lang=en

http://new.wales.gov.uk/dcells/publications/publications/circularsindex/03/criminalrecordsbureau/nafwc0203?lang=cy

10 Cod ymarfer Estyn ar gyfer arolygwyr fel mae'n ymddangos yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'i ehangu ym mhob un o lawlyfrau'r arolygiad.

11 Dogfen Estyn 'Gwrando ar Ddysgwyr'

http://www.estyn.gov.uk/publications/Listening_to_Learners_July2004.pdf

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Listening_to_Learners_July2004.pdf